PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ein cyf: | NB/mm | Gofynnwch am: | Nick Bennett |
| Eich cyf: | | ☎ | 01656 641152 |
| Dyddiad: | 10 Ebrill 2019 | ✉ | Marilyn.morgan@ombudsman-wales.org.uk |


Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Trwy Ebost yn unig:**
SeneddPAC@assembly.wales

Annwyl Nick

**Craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2017/18**

Diolch i chi am eich adroddiad diweddar ar Graffu eich Pwyllgor o Gyfrifon 2017/18, a gyhoeddwyd ar 19 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad yn gwneud sawl argymhelliad mewn perthynas â'r Ombwdsmon a byddaf yn ymateb iddynt mewn trefn ddilyniannol.

*Argymhelliad 29. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon yr Ombwdsmon yn adrodd ar ei berfformiad yn gliriach ac yn fwy effeithiol. Dylai hyn gydymffurfio â'r arfer gorau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol, gan nodi perfformiad yr Ombwdsmon o gymharu â'i amcanion, gan gynnwys y rhai yn ei Gynlluniau Gweithredol a Strategol tair blynedd, yn ogystal â nodi ei gynlluniau a'i dargedau ar gyfer y dyfodol*

*Ymateb:* Rwy'n falch o gyhoeddi, yn fy Mhwyllgor Archwilio a Risg diweddaraf, cadarnhaodd yr archwilwyr bod ein cyfrifon yn adlewyrchu arfer gorau.

Mae ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017/18 yn datgan:

"Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:
- Yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru…' a
- Wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Thrysorlys ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan Ddeddf (2005) Ombwdsmon Gwasanaethau cyhoeddus (Cymru)."

Mae'n bosibl na fydd aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwybodol bod fy adroddiad a chyfrifon blynyddol wedi cael eu cyhoeddi ar y cyd dros y ddwy flynedd diwethaf er mwyn sicrhau mwy o symbiosis rhwng gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad, cynlluniau a thargedau ar gyfer y dyfodol. Adroddir ar wariant ar bob un



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150   01656 641199   ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

o’m hamcanion yn unol ag arfer da.  Mae fy Nghynllun Corfforaethol tair blynedd newydd, sy’n cychwyn yn 2019/20, yn cysylltu dangosyddion perfformiad allweddol yn fwy uniongyrchol â’r amcanion. Croesawir awgrymiadau am fwy o eglurder ac effeithiolrwydd yn yr ysbryd o welliant parhaus.

*Argymhelliad 30. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gosod targedau ar gyfer arbedion cost i adlewyrchu’r ystod lawn o’i weithgareddau. Dylid adrodd ar berfformiad ar sail y targedau hyn bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.*

*Ymateb:* O ystyried y nifer cynyddol o gwynion sy’n dod i’m swyddfa, rydym bob amser wedi ceisio gwneud arbedion cost y gellir eu hail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion. Caiff cyllidebau eu hadolygu’n flynyddol, cyn y gwneir dyraniadau i bennau gyllideb. Mae’r dyraniadau hyn yn adlewyrchu arbedion targed. Yn ychwanegol, cyfrifir costau uned yn flynyddol - mae’r gost fesul ymholiad/cwyn wedi’i leihau o fwy na 40% dros saith mlynedd. Byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i’r argymhelliad hwn fel y gellir cyfleu hyn yn fwy effeithiol mewn Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol yn y dyfodol.

*Argymhelliad 31. Mae’r Pwyllgor yn argymell, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, fod yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol i’w Banel Cynghori nad yw’n aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.*

*Ymateb:* Credaf fod yr argymhelliad hwn yn camddeall y berthynas rhwng fy Mhanel Cynghori a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC). Fel corfforaeth unigol, rwy’n sicrhau bod y ddau bwyllgor yn annibynnol, gyda chylch gorchwyl sydd wedi’i diffinio’n glir. Gan nad wyf i nag unrhyw un o’m staff yn aelodau o’r ARAC, mae’n gwbl annibynnol ac felly ni ddylid ei gyfuno â strwythur traddodiadol prif fwrdd/pwyllgor archwilio. Mae’r  Panel Cynghori yn darparu canllawiau a chyngor strategol ond nid yw’n gyfrifol am faterion llywodraethu. Y Pwyllgor Archwilio & Sicrhau Risg sy’n goruchwylio materion llywodraethu, gyda chymorth archwilwyr mewnol ac allanol.

Yn y cyd-destun hwn, rwyf hefyd yn ymwybodol y trafodwyd fy atebolrwydd yn ystod y broses o basio’r ddeddfwriaeth OGCC newydd, a’ch bod wedi cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i drafod sut gellir gwella fy atebolrwydd. Gyda hyn mewn golwg, hoffwn eich gwahodd a chadeiryddion y Pwyllgorau eraill i OGCC ym Mhencoed i gwrdd â staff a thrafod y mater penodol hwn gyda Jonathan Morgan, cadeirydd annibynnol y Panel Cynghori a’r ARAC, a minnau.

*Argymhelliad 32. Mae’r Pwyllgor yn argymell, er budd tryloywder, fod yr Ombwdsmon yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y cyfrifon mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol am ei rwymedigaethau posibl ac agweddau eraill ar ei ddatganiadau ariannol.*

*Ymateb:* Rydym yn adrodd yn lawn ar ein darpariaethau a rhwymedigaethau yn ein cyfrifon blynyddol yn unol â gofynion adrodd ariannol statudol a chaiff y rhain eu hadolygu a’u cymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o’u harchwiliad blynyddol o’r cyfrifon blynyddol. Fodd bynnag, yn yr ysbryd o welliant parhaus, rwy’n hapus iawn i roi ystyriaeth lawn i’r argymhelliad hwn.

*Argymhelliad 33: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsman yn esbonio i’r Pwyllgor ei resymau dros wneud taliadau arbennig yn 2017-18 i gyn-aelodau o staff. Dylai hyn nodi pam yr oedd taliadau o’r fath yn ddarostyngedig i gymal cyfrinachedd.*

*Ymateb:* Rwy'n bryderus bod diffyg dealltwriaeth ynghylch y mater hwn. Yn gyffredinol, caiff cytundebau setlo eu cydnabod a'u derbyn fel ffordd o ffurfioli cytundebau gwirfoddol rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr. Cafodd y cytundebau eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer ACAS ar gyfer Cytundebau Setlo. Yn gyffredinol, mae cytundebau setlo cyflogaeth yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyfrinachedd ynghylch materion sensitif mewn perthynas â staff, ar gyfer y gweithiwr a'r cyflogwr.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymestyn i chwythu'r chwiban - nid yw cytundebau cyfrinachedd yr un fath â chytundebau peidio â datguddio, sydd wedi cael rhywfaint o amlygrwydd yn y cyfryngau yn ddiweddar. Roedd y cytundebau setlo y cyfeiriwyd atynt yn y cyfrifon yn ymwneud â thri aelod unigol o staff ac roedd pob un o'r cytundebau yn cynnwys darpariaeth bendant yn amlygu nad oedd dim yn y cytundeb yn atal yr unigolyn rhag gwneud datgeliad chwythu'r chwiban gwarchodedig. Cytunwyd ar y manylion a gynhwysir yn yr adroddiad a chyfrifon blynyddol gan yr archwilwyr allanol ac maent yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn ei adroddiad, dywedodd y Pwyllgor: "*Ni ddylid eu defnyddio fel mater o drefn er mwyn atal cyn-weithwyr rhag datgelu'r ffeithiau sy'n ymwneud â therfynu eu cyflogaeth na'u hatal rhag codi materion am y gwasanaethau a ddarperir gan eu cyn-gyflogwr (neu gau eu cegau).* Gall yr ymadrodd hwn fod yn emosiynol lwythog a chamarweiniol ac rwy'n hapus i gywiro'r gwall. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, mae 23 aelod o staff wedi gadael eu cyflogaeth yn OGCC. Dim ond mewn tair achos y defnyddiwyd cytundebau setlo, felly yn sicr, nid ydynt yn creu unrhyw fath o safle ragosodedig. Oherwydd rhesymau cytundebol, ni allaf ddarparu manylion yr achosion unigol penodol.

Yn gywir



**Nick Bennett**
Omwbdsmon